# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Medi 2023

Amser: 09.30 - 11.58

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13475) yn:

http://senedd.tv/cy/13475

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru, Auditor General for Wales, Audit Wales<br>Dr Kathryn Chamberlain, Archwilio Cymru<br>Kevin Thomas, Archwilio Cymru<br>Ann-Marie Harkin, Archwilio Cymru<br>Jonathan Athow, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi<br>Katherine Gross-Niklaus, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Cerian Jones (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Amserlen y gyllideb ar gyfer 2024-25 - 12 Medi 2023

## 3 Archwilio Cymru – Gwaith craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23 a Chynllun Blynyddol 2024-25: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Archwilio Cymru ar gyfer 2022-23 a Chynllun Blynyddol 2024-25 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru; Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru; a swyddogion Archwilio Cymru.

3.2 Cytunodd Archwilio Cymru i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- Manylion ychwanegol am gyfradd trosiant staff ar draws y sefydliad yn ystod y deuddeg mis blaenorol, gan gynnwys dadansoddiad o rolau'r staff a adawodd a nifer y staff archwilio cymwysedig a adawodd y sefydliad yn ystod y cyfnod hwnnw.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Archwilio Cymru – Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2023-24

5.1 Trafododd y Pwyllgor Amcangyfrif Atodol Archwilio Cymru ar gyfer 2023-24 ag Archwilydd Cyffredinol Cymru; Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru; a swyddogion Archwilio Cymru.

## 6 Sesiwn friffio dechnegol ar weinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru: Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi

6.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio dechnegol ar weinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru gan Jonathan Athow, Cyfarwyddwr Cyffredinol Strategaeth Cwsmeriaid a Dylunio Treth, Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi; a Katherine Gross-Niklaus, Uwch Gynghorydd Polisi Treth Incwm Datganoledig, Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi.

## 7 Sesiwn friffio dechnegol ar weinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru: Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi – Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Archwilio Cymru – Gwaith craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23 a Chynllun Blynyddol 2024-25 / Amcangyfrif Atodol 2023-24: Trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunodd i ysgrifennu at Archwilio Cymru ynghylch Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23 ac Amcangyfrif Atodol 2023-24.

## 9 Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017: Adolygiad annibynnol

9.1 Trafododd y Pwyllgor y materion sy’n codi o'r adolygiad annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf.

## 10 Y wybodaeth ddiweddaraf am Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid

10.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid.

## 11 Y wybodaeth ddiweddaraf am Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) – Cynghorydd Arbenigol a sesiynau tystiolaeth

11.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar y trefniadau ar gyfer craffu ar oblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).